# Adroddiad Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg i Comisiynydd y Gymraeg

Awst 2026

# Cynnwys

**Pennod 1** Trosolwg . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . Tudalen 3
**Pennod 2** Trosolwg o gynnydd ac uchafbwyntiau. . . . . . . . . . . . . . . . . . . Tudalen 5
**Pennod 3** Datblygiad yn y dyfodol . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . Tudalen 10

Cofrestrwch ar gyfer **ein hysbysiadau newyddion a chyhoeddiadau**

Gweld ein datganiadau i'r wasg, ymgynghoriadau ac areithiau diweddaraf.

# Pennod 1

# Trosolwg

## Cyflwyniad

**1.1** Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yw'r rheoleiddiwr ymddygiad ar gyfer oddeutu 35,000 o gwmnïau gwasanaethau ariannol a marchnadoedd ariannol yn y DU, yn ogystal â'r rheoleiddiwr darbodus ar gyfer dros oddeutu 34,000 o'r cwmnïau hynny. Mae tua 1,300 o'r cwmnïau hyn wedi'u lleoli yng Nghymru.

**1.2** Ein hamcan strategol yw sicrhau bod marchnadoedd perthnasol yn gweithio'n dda, a'n hamcanion gweithredol yw:

- diogelu defnyddwyr
- diogelu uniondeb system ariannol y DU
- hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr

Ers 2023, mae gennym hefyd amcan eilaidd i hwyluso cystadleurwydd rhyngwladol a thwf economi'r DU yn y tymor canolig i'r tymor hir (yn amodol ar alinio â safonau rhyngwladol). Rydym wedi amlinellu sut y byddwn yn cyflawni hyn yn ein strategaeth 5 mlynedd.

**1.3** Rydym yn gorff cyhoeddus annibynnol sy'n cael ei ariannu'n gyfan gwbl drwy'r ffioedd rydym yn eu codi ar gwmnïau a reoleiddir. Rydym yn atebol i'r Trysorlys, sy'n gyfrifol am system ariannol y DU, ac i Senedd y DU.

**1.4** Diffinnir ein rôl a'n hamcanion yn bennaf gan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (FSMA). Rydym yn gweithio gyda grwpiau defnyddwyr, cymdeithasau masnach a chyrff proffesiynol, rheoleiddwyr domestig, deddfwyr yr UE ac ystod eang o randdeiliaid eraill. Gyda'r cylch gwaith helaeth hwn, rydym yn defnyddio dull gweithredu cymesur o reoleiddio, gan flaenoriaethu'r meysydd a'r cwmnïau sy'n peri risg uwch i'n hamcanion. Mae gennym ddyletswydd o dan FSMA i ddefnyddio ein hadnoddau yn economaidd ac yn effeithlon.

**1.5** Rydym yn gweithio ar draws y DU gyda phrif swyddfa yn Llundain, swyddfeydd yn Leeds a Chaeredin a chydweithwyr yn Belfast a Chaerdydd. Cyflogir tua 4,600 o staff – gan ddarparu gwasanaethau i gwmnïau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**1.6** Mae'r adroddiad monitro hwn ar Gynllun Iaith Gymraeg yr FCA yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun a'i weithredu ers cyhoeddi'r adroddiad monitro diwethaf ym mis Ebrill 2025. Dyma'r trydydd adroddiad, a'r un olaf, ar ein Cynllun presennol cyn iddo gael ei ddiwygio yn unol â'r bwriad.

## Cynllun Iaith Gymraeg yr FCA – crynodeb

**1.7** Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg, a gafodd ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Chwefror 2023, yn disgrifio sut y byddwn, i'r graddau y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yn gweithio i'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae hefyd yn ystyried dyletswydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol o dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000, fel y'i diwygiwyd, i ddefnyddio ei adnoddau yn economaidd ac yn effeithlon.

**1.8** Mae'r cynllun yma'n cael ei ystyried yn rhagweithiol ac yn darparu mwy o eglurder a ffocws mewn perthynas â'n cynnig Cymraeg a'r ffordd yr ydym yn ystyried yr iaith wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.

## Pennod 2

# Trosolwg o gynnydd ac uchafbwyntiau

**2.1** Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'n gweithgarwch dros y cyfnod adrodd er mwyn cyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Iaith Gymraeg. Mae'n dangos y camau ymarferol rydym wedi eu cymryd i wella ein cynnig Cymraeg, ynghyd â'r cynnydd a wnaed wrth ymgorffori ystyriaethau'r Gymraeg yn ein gweithgarwch busnes ehangach. Mae diweddariadau manylach ar gael yn Adran 4.

**2.2** Mae uchafbwyntiau'r cyfnod adrodd yn cynnwys:

- Cyhoeddi pecyn cymorth partneriaid y Gwiriwr Cwmnïau yn Gymraeg, gan gynnwys nifer o adnoddau cyfryngau cymdeithasol a chynnwys ar gyfer tudalennau gwe i'w defnyddio gan ein partneriaid yng Nghymru fel rhan o ymgyrch ledled y DU. Mae'r Gwiriwr Cwmnïau yn helpu defnyddwyr i wirio a yw cwmni wedi'i awdurdodi ac a oes ganddo ganiatâd i ddarparu'r gwasanaethau y maent yn chwilio amdanynt. Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth o'r Gwiriwr Cwmnïau ac annog cynulleidfaoedd sydd mewn perygl i'w ddefnyddio, gan hyrwyddo'r arfer o wirio fel cam diofyn.
- Cynnal sesiwn friffio *Connect and Lear*n ar gyfer mwy na 50 o gydweithwyr i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith Gymraeg, gan helpu staff i ddeall eu cyfrifoldebau'n well a chefnogi gweithrediad cyson o'r Cynllun ar draws y sefydliad.
- Cwblhau holiadur hunanasesu Comisiynydd y Gymraeg fel rhan o'r ddull diwygiedig o fonitro cydymffurfiaeth. Mae'r hunanasesiad yn annog sefydliadau i adlewyrchu ar eu trefniadau llywodraethu, nodi arfer da, ac ystyried cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus, gan gefnogi dull mwy cydweithredol o reoleiddio.
- Cyhoeddi pecyn cymorth partneriaid cyllid modur, sy'n rhan o'n hymgyrch fwyaf eleni. Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth o'r cynllun iawndal ar gyfer defnyddwyr.
- Parhau i ehangu a chynnal cynnwys digidol Cymraeg drwy ddiweddaru amrywiaeth o dudalennau gwybodaeth defnyddwyr blaenoriaeth uchel, gan sicrhau bod gan ddefnyddwyr sy'n siarad Cymraeg fynediad at ganllawiau amserol a pherthnasol ar draws meysydd allweddol o'n gwaith, gan gynnwys:
  - Mynediad at arian parod
  - Cynigion prynu nawr a thalu yn hwyrach
  - Adrodd am sgâm
  - Cofrestr Gwasanaethau Ariannol
  - Cynllun iawndal pensiwn British Steel
  - Cynllun Pensiwn British Steel – ein dull o orfodi
  - Eich hawliau gyda gwasanaethau ariannol
  - Rhestr Rhybuddion FCA o gwmnïau heb eu hawdurdodi
  - Sut i gwyno
  - Amddiffyn eich hun rhag sgamiau
  - Cyfathrebiadau FCA ffug

- Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol yr FCA yn y Gymraeg ochr yn ochr â'r fersiwn Saesneg, gan sicrhau bod un o'n prif gyhoeddiadau corfforaethol ar gael yn ddwyieithog a dangos ein hymrwymiad parhaus i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

## Cynnydd – Delio â'r cyhoedd yng Nghymru

### Gohebiaeth

**2.3** Rydym yn parhau i groesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Pan fyddwn yn derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg, rydym yn ymateb yn y Gymraeg o fewn yr un safonau gwasanaeth sy'n berthnasol i ohebiaeth Saesneg.

**2.4** Mae gwybodaeth am y gwasanaeth hwn yn parhau i gael ei hyrwyddo trwy ein gwefan a gohebiaeth â sefydliadau yng Nghymru, gan helpu i godi ymwybyddiaeth y gall cwsmeriaid gyfathrebu â ni yn y Gymraeg. Mae cymorth cyfieithu priodol yn parhau ar waith i sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei gyflawni'n gyson.

**2.5** Mae ein cyswllt e-bost ar gyfer pob ymholiad cyffredinol Cymraeg yn ymddangos yn amlwg ar ein gwefan.

### Cyfathrebu dros y ffôn

**2.6** Yn unol â'n hymrwymiadau, rydym nawr yn cynnig opsiwn Cymraeg ar ein prif linellau cymorth ffôn ar gyfer defnyddwyr a chwmnïau lle gall galwyr siarad â'r FCA yn Gymraeg. Mae hyn yn cael ei hwyluso trwy wasanaeth cyfieithu 'galw yn ôl'. Mae'r trefniant hwn yn parhau i sicrhau y gall defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg gael mynediad at ein gwasanaethau heb anfantais.

### Cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau a thrafodion eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

**2.7** Nid ydym wedi trefnu unrhyw gyfarfodydd na digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, mae trefniadau'n parhau i sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried pe bai digwyddiadau o'r fath yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

**2.8** Yn yr un modd, ni chynhaliwyd unrhyw arolygon cyhoeddus sy'n gofyn am ddarpariaeth iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Bydd ystyriaethau'r iaith Gymraeg yn parhau i gael eu hymgorffori mewn gweithgareddau ymgysylltu yn y dyfodol lle bo'n briodol.

# Cynnydd – Ein hwyneb cyhoeddus

## Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

**2.9** Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi parhau i sicrhau bod ymgyrchoedd cyhoeddus sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd yng Nghymru yn cynnwys deunyddiau Cymraeg lle bo hynny'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys adnoddau dwyieithog ar gyfer ymgyrchoedd Gwiriwr Cwmnïau a chyllid modur, gan helpu defnyddwyr Cymraeg eu hiaith i gael mynediad at wybodaeth bwysig ar sail gyfartal.

## Cyhoeddiadau i ddefnyddwyr

**2.10** Rydym wedi mabwysiadu dull symlach a chyson o sicrhau bod cyhoeddiadau cyffredinol ar gael yn ddwyieithog. Mae hyn yn ein galluogi i fabwysiadu dull mwy cymesur a rhesymol, ac mae'n cyd-fynd â nifer o sefydliadau eraill sy'n gweithredu o dan gyfundrefn Safonau'r Gymraeg, felly bydd y dull yn gyfarwydd i'r cyhoedd yng Nghymru.

**2.11** Wrth symud ymlaen, bydd deunyddiau i ddefnyddwyr a chyhoeddiadau corfforaethol ar gael yn rhagweithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg:

- Lle maent yn ymwneud yn benodol â Chymru.
- Pan fo'r pwnc dan sylw yn awgrymu y dylid eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Pan fydd y gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylai fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

I sicrhau cysondeb, mae'r FCA yn defnyddio proses sgrinio drwy gydol y flwyddyn i nodi dogfennau o'r fath.

## Gwefannau

**2.12** Mae ein tudalennau gwe yn y Gymraeg yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer gwasanaethau Cymraeg, cyhoeddiadau a gwybodaeth i ddefnyddwyr. Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym yn parhau i adolygu a diweddaru'r cynnwys hwn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn parhau i fod yn gywir, yn hygyrch ac yn berthnasol.

**2.13** Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi cofnodi 3,461 o ymweliadau â'n tudalennau gwe Cymraeg, gan gynnwys 2,925 o ymweliadau â'n tudalennau corfforaethol Cymraeg a 512 o ymweliadau â'n tudalennau gwybodaeth i ddefnyddwyr yn Gymraeg. Mae monitro'r data hwn yn ein helpu i ddeall sut mae defnyddwyr yn cael mynediad at ein cynnwys Cymraeg ac yn llywio gwelliannau yn y dyfodol.

**2.14** Mae'r dudalen wê Gymraeg yn cynnwys 'ffurflen cysylltwch â ni' yn y Gymraeg, lle gall siaradwyr Cymraeg lenwi ffurflen gyswllt gydag ymholiadau cyffredinol.

## Cyfryngau cymdeithasol

**2.15** Rydym yn parhau i gynnal ein cyfrif Cymraeg X, @FCACymru, gan ei ddefnyddio i hyrwyddo cyhoeddiadau, ymgyrchoedd defnyddwyr a chyhoeddiadau allweddol yn y

Gymraeg. Mae'r cyfrif yn parhau i fod yn sianel bwysig ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau Cymraeg ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd yng Nghymru.

### Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

**2.16** Yn yr un modd â'r ffordd rydym bellach yn trin cyhoeddiadau, rydym wedi mabwysiadu dull symlach a chyson i sicrhau bod ffurflenni ar gael yn y Gymraeg yn rhagweithiol. Eto, mae hyn yn ein galluogi i gymryd safle mwy cymesur a rhesymol, ac mae'n cyd-fynd â sefydliadau eraill sy'n gweithredu o dan gyfundrefn Safonau'r Iaith Gymraeg, felly bydd y dull yn gyfarwydd i'r cyhoedd yng Nghymru.

**2.17** Rydym yn ymrwymo i sicrhau bod ffurflenni a deunyddiau esboniadol cysylltiedig ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yn rhagweithiol:

- Lle maent yn ymwneud yn benodol â Chymru.
- Pan fydd y pwnc yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Pan fydd y gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylai fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

### Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

**2.18** Yn ystod y cyfnod adrodd ni wnaethom gyhoeddi unrhhysbysiadau swyddogol perthnasol, hysbysiadau cyhoeddus na hysbysiadau recriwtio staff.

### Codi ymwybyddiaeth

**2.19** Drwy gydol y cyfnod adrodd, rydym wedi parhau i hyrwyddo argaeledd ein gwasanaethau Cymraeg drwy ein gwefan, gohebiaeth, gwasanaethau ffôn a sianeli cyfryngau cymdeithasol Cymraeg. Gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i sicrhau bod defnyddwyr a rhanddeiliaid yn parhau i fod yn ymwybodol y gallant ymgysylltu â'r FCA yn y Gymraeg.

## Cynnydd – Gweithredu'r Cynllun

### Staffio, recriwtio, hyfforddiant iaith a hyfforddiant galwedigaethol

**2.20** Er nad oes unrhyw swyddi yn yr FCA ar hyn o bryd yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg fel maen prawf hanfodol neu ddymunol, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn ein Cynllun Iaith Gymraeg. Rydym yn cyflawni hyn drwy gymorth cyfieithu allanol, canllawiau mewnol clir a gweithgareddau parhaus i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff, er mwyn sicrhau bod cydweithwyr yn deall sut y dylid darparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

**2.21** Mae ein canllaw mewnol yn ymdrin â phrif elfennau'r Cynllun i helpu ein cydweithwyr i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn cyflawni a gweithredu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun.

## Trefniadau mewnol

**2.22** Mae cyflawni Cynllun yr Iaith Gymraeg yn parhau i gael cefnogaeth ein Tîm Uwch Arweinyddiaeth. Mae cyfrifoldeb am fonitro'r gweithrediad yn nwylo'r Pennaeth Marchnata, Digidol a Digwyddiadau yn y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu, gan sicrhau goruchwyliaeth gyson o'n hymrwymiadau iaith Gymraeg i'r cyhoedd.

**2.23** Mae cynnydd yn erbyn y Cynllun a'r Cynllun Gweithredu yn parhau i gael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn, gan alluogi olrhain cyflawniad a nodi cyfleoedd i wella wrth i ni baratoi ar gyfer gweithredu'r Cynllun diwygiedig.

## Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

**2.24** Rydym yn falch o adrodd nad ydym wedi derbyn unrhyw gwynion mewn perthynas â'n gwasanaethau Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

**2.25** Rydym yn ymrwymedig i wella ein cynnig iaith Gymraeg yn barhaus ac yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr a rhanddeiliaid i helpu i lywio gwelliannau gwasanaeth yn y dyfodol.

## Pennod 3

# Datblygiad yn y dyfodol

**3.1** Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r adroddiad monitro blynyddol olaf o dan Gynllun Iaith Gymraeg presennol yr FCA. Yn ystod y cyfnod adrodd rydym wedi parhau i gryfhau ein gwasanaethau iaith Gymraeg wrth baratoi ar gyfer cyflwyno ein Cynllun diwygiedig, sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

**3.2** Yn amodol ar gymeradwyaeth, bydd ein ffocws yn ystod y cyfnod adrodd nesaf yn symud tuag at weithredu'r Cynllun diwygiedig a chyflawni'r camau gweithredu a nodir ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun Gweithredu. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed o dan y Cynllun presennol drwy ymgorffori ystyriaethau'r iaith Gymraeg yn ein cyfathrebu, ein gwasanaethau a'n gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, gan sicrhau bod defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg yn parhau i dderbyn gwasanaethau hygyrch a chyfartal.

© Financial Conduct Authority 2026
12 Endeavour Square London E20 1JN
Ffôn: +44 (0)20 7066 1000
Gwefan: www.fca.org.uk
Cedwir pob hawl

Cyfeirnod y cyhoeddiad: 1-008616

Mae ein holl gyhoeddiadau ar gael i'w lawrlwytho o www.fca.org.uk.

**Gofyn am fformat arall**

Cwblhewch y ffurflen hon os oes angen y cynnwys hwn arnoch chi mewn fformat arall..

Neu ffoniwch 0207 066 1000

**Cofrestrwch** ar gyfer ein hysbysiadau newyddion a chyhoeddiadau